# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun Gweithredu Tai ar gyfer 2020/21 hyd at 2028/29

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Nod y cynllun yw ymateb i'r argyfwng cynyddol yn y maes tai yng Ngwynedd a chael gwared ag anghydraddoldeb. Yn benodol mae'r cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn ceisio mynd i'r afael â phum her benodol sydd wedi'u hadnabod fel meysydd blaenoriaeth, sef:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

03/07/20 – fersiwn cyntaf
12/11/20 – fersiwn 2
26/05/23 – fersiwn 3
25/04/25 – fersiwn 4

# 2) Gweithredu

## 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Pobl Gwynedd
Holl staff Adran Tai ac Eiddo
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Adran Plant a Theuluoedd
Cymdeithasau Tai o fewn Gwynedd
Pwyllgor Craffu Gofal
Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Cynhaliwyd cyfres o weithdai a cyfarfodydd gyda'n partneriaid er mwyn sefydlu dealltwriaeth gadarn o'r heriau sy'n wynebu pobl Gwynedd. Yn deillio o'r ymgysylltu hwnnw, datblygwyd cyfres o brosiectau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny.

Mae datblygiad y Cynllun hefyd yn ddilyniant naturiol i'r gwaith ymgynghori a wnaethpwyd wrth baratoi'r Strategaeth Tai, y Strategaeth Cefnogi Pobl a Digartrefedd Rhanbarthol, yn ogystal â'r Asesiad Llesiant Lleol.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Defnyddiwyd sampl o achosion y mae swyddogion o'r Adran Tai yn delio â hwy er mwyn adnabod problemau a rhwystrau cyffredin ond hefyd rhai sy'n effeithio nodweddion gwarchodedig penodol megis, anabledd, oedran a rhyw ayb. Yn ychwanegol, mae ymgysylltu wedi digwydd gyda'n partneriaid a budd-ddeiliaid (fel y nodir yn rhan 2.1) sydd wedi atgyfnerthu'r prif negeseuon canlynol:

1. Gwelwyd cynnydd o 40% yn y galw am wasanaeth Digartrefedd ers 2014/15 a thwf sylweddol yn ystod y pandemig Covid-19 gyda'r nifer misol a gyflwynai eu hunain yn neidio o gyfartaledd o 60 y mis i 80 y mis. Gwelwyd cynnydd pellach o 47% yn y niferoedd a gyflwynodd yn 2022/23 o gymharu â 2018/19 a chynnydd o 167% yn y niferoedd fu mewn llety argyfwng rhwng yr un cyfnod, gyda'r niferoedd cyflwyniadau yn parhau yn uchel. Mae hyn felly yn dangos angen clir ar gyfer cynyddu'r unedau byw addas o fewn y Sir a hefyd ymestyn y gefnogaeth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol. Yr un mor berthnasol oedd yr angen i ddarparu cefnogaeth i unigolion sy'n wynebu heriau iechyd meddwl sy'n eu rhoi eu rhoi mewn perygl o golli meddiant o'u cartrefi a dod yn ddigartref.

2. Mae dros 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai yng Ngwynedd heddiw, gyda'r galw mwyaf am lety un a dwy ystafell wely i bobl sengl o dan 35, ac mae prinder cyflenwad ohonynt. Y cyfnod cyfartalog o amser a dreulir ar y gofrestr tai cyn i gynnig am lety gael ei wneud yw 690 diwrnod.

Er bod y darlun hwn yn gwella o ganlyniad i ymyraethau'r Cynllun Gweithredu Tai hyd yma, mae'r sefyllfa'n parhau'n argyfyngus gyda'r galw yn llawer uwch na'r cyflenwad a phwysau cyson ar ein gwasanaethau.

3. Mae oddeutu 63% o drigolion Gwynedd wedi cael eu prisio allan o'r farchnad yng Ngwynedd o gymharu â 60%[1] yng Nghymru, gyda blaendal morgais yn broblem sylweddol i brynwyr tro cyntaf. Mewn rhai cymunedau mae angen 7 gwaith yr incwm cyfartalog i brynu eiddo.

4. Mae natur ac isadeiledd tai yng Ngwynedd yn golygu fod nifer yn byw mewn tlodi tanwydd, a ystyrir i fod ar ei uchaf erioed yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

5. Mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i bobl hyn barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref.

6. Mae diffyg stoc addas o dai ar gyfer plant anabl sy'n dychwelyd adref o'r ysbyty.

7. Mae diffyg presennol yn y nifer o gartrefi sydd ar gael i'w cynnig i ieuenctid sydd yn gadael ein gofal yn ddeunaw oed. Mae diffyg hefyd yn y nifer unedau "tai gyda chefnogaeth" ar gyfer cartrefu ieuenctid sydd angen cymorth gan y Cyngor i fyw'n annibynnol.

8. Ar hyn o bryd mae nifer o oedolion gydag anghenion dwys, yn cynnwys tua 30 gydag anableddau dysgu, yn byw mewn lleoliadau anaddas ar draws y sir.

Mae'r cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu yn sgil yr ymgysylltu yma ac mewn ymgynghoriad â'n partneriaid.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Asesiad Marchnad Dai Lleol Gwynedd 2018-23 yn atgyfnerthu canlyniadau'r ymgynghori ymhellach ac yn canfod:

**Tai Cymdeithasol**

Mae gan 53% o'r stoc tai cymdeithasol yng Ngwynedd dair neu fwy o ystafelloedd gwely, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 47%. Dim ond 14% o'r stoc tai sydd ag un ystafell wely, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i denantiaid symud i dai llai.

Mae'r nifer sy'n hawlio Budd-dal Tai yn y Sector Rhentu Cymdeithasol yng Ngwynedd yn 72.5%, sy'n uwch na Chymru gyda 68%.

Gofynnodd 71% ar y gofrestr tai cymdeithasol am eiddo un neu ddwy ystafell wely, fodd bynnag mae prinder o 24% yn y stoc tai cymdeithasol.

Bydd effaith diwygio lles yn arwain at gynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n troi at y sector tai cymdeithasol wrth i rentu preifat fod yn anaddas a chyda cynnydd yn y galw am eiddo mwy.

[1] © 1996 – 2023 CACI Limited

Mae llai na 10% o'r stoc tai cymdeithasol wedi cael addasiadau o ryw fath, nid yw hyn yn adlewyrchiad o lety sy'n gwbl hygyrch.

**Digartrefedd**
Roedd 62% o ymgeiswyr digartref yn 2024 yn unigolion sengl. Nid yw'r cyflenwad o dai cymdeithasol yn diwallu gofynion anghenion y digartref.

**Fforddiadwyedd**
Mae'n debygol y bydd Diwygio Lles yn golygu y bydd aelwyd gyffredin o oedran gweithio yng Ngwynedd £45 yn dlotach bob wythnos erbyn 2020.

Mae bwlch o £4,781 rhwng incwm canolrifol a'r incwm sydd ei angen i brynu tai yn y chwartel isaf yng Ngwynedd

Mae bwlch o £17,067 rhwng incwm canolrifol a'r incwm sydd ei angen i brynu cartrefi canolrifol yng Ngwynedd.

Mae rhentu sector preifat yn llai fforddiadwy i aelwydydd yn 2017, gan fod lwfansau tai yng Ngwynedd ar gyfartaledd £121 yn is na rhent sector preifat.

**Cyflenwad Tai**
Yn ôl adroddiad '*Llechen Lân: Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn i'r Dyfodol*' a gyhoeddwyd gan y Cyngor ym Medi 2024, disgwylir i'r cynnydd yng ngrŵp yr oedran hŷn barhau, gan fod pobl yn byw'n hirach ac yn symud i'r ardal. Erbyn 2043, disgwylir y bydd 49% yn fwy o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd, fydd hyn yn arwain at fwy o alw am lety sy'n fwy addas ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Disgwylir i nifer yr aelwydydd gynyddu 8% hyd at 2035.Taflunnir cynnydd o 18% mewn aelwydydd 1 person; ac 13% o aelwydydd 5+ o bobl erbyn 2035 gan arwain at gynnydd yn yr angen am dai llai gydag un neu ddwy lofft
Disgwylir cynnydd yn yr angen am anheddau mawr (5+ person) hefyd oherwydd bydd mwy o deuluoedd mawr rhwng 2018-35.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Wrth ddatblygu rhai prosiectau ymhellach, megis y cynigion sy'n ymwneud ag adeiladu neu drosi adeiladu, bydd ymgynghori pellach angen digwydd gydag ystyriaeth bellach i unrhyw effaith ar gydraddoldeb.

Er ein bod yn ymwybodol fod y galw am gartrefi yn uwch na'r cyflenwad fforddiadwy sydd ar gael yng Ngwynedd, mae angen gwaith pellach i sefydlu a meintoli'r union angen am wahanol fathau o gartrefi ym mhob ardal o'r sir. Bydd cydraddoldeb yn rhan annatod o'r gwaith i fireinio ein dealltwriaeth o'r angen yng Ngwynedd.

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

| Nodweddion | Sut fath o effaith? | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedl-igrwydd)** | Positif | Drwy gynyddu'r nifer ac ystod o dai o fewn y Sir, yn ogystal â'r pecynnau cefnogaeth i denantiaid a landlordiaid preifat, byddwn yn edrych i leihau digartrefedd a gwella safonau tai yn gyffredinol, gan gynnwys rhentu sector preifat.<br><br>Mae'r cynlluniau yn debygol o gael effaith bositif ar y nodwedd hil gan y bydd cynnydd cyffredinol yn y nifer o dai fforddiadwy sy'n addas, ac yn cyd-fynd, ag anghenion gwahanol ein cymunedau. Er enghraifft yn ôl yr Asesiad Marchnad Dai Lleol mae tystiolaeth o fewn y Sector Rhentu Preifat fod rhai darpar denantiaid yn wynebu gwahaniaethu oherwydd eu bod yn dod o leiafrif ethnig. Yn yr un modd, gall arwain at gynnig opsiynau mwy addas i bobl sy'n byw mewn llety am-daliadaeth neu ddelio ag achosion o orlenwi.<br><br>Bydd ymgynghori yn rhan annatod o'n gwaith parhaus i fireinio ein dealltwriaeth o'r angen mewn gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd, gyda ystyriaeth ofalus i'r nodwedd hil a'r diwylliannau gwahanol cysylltiedig, ac effaith hynny ar yr angen am dai. Bydd manylder y cynlluniau datblygu a chefnogaeth yn cael ei selio ar ganlyniadau y gwaith hynny. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Amcangyfrifir fod 63% o brynwyr wedi eu prisio allan o'r farchnad leol. Gall cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy, yn ogystal â'r pecynnau cefnogaeth arfaethedig o ran benthyciadau a rhyddhad trethi olygu fod mwy o bobl leol yn dewis / gallu aros yng Ngwynedd. |
| **Anabledd** | Positif | Gwyddom fod nifer o rwystrau i blant ag oedolion anabl ddod o hyd i dy addas a fforddiadwy, gyda phrinder o dai sy'n hygyrch a digon hyblyg ar gyfer eu haddasu. Drwy glustnodi arian ar gyfer cyllido addasiadau i dai, a chyflwyno unedau arbenigol dros dro a parhaol o'r newydd, gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol safonau byw a lles meddyliol i nifer o unigolion a theuluoedd.<br><br>Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymysg unigolion sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref. Yn ôl yr adolygiad 'A yw Cymru'n decach?' cafnwyd fod effaith cynlluniau i atal digartrefedd yn amrywiol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, yn enwedig rhai sydd a chyflyrau iechyd meddwl. Drwy gynnig cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol ynghyd a llety pwrpasol ac addas i ddarparu'r gefnogaeth, byddwn yn anelu sicrhau fod gan unigolion y cymorth angenrheidiol.<br><br>Gwyddom hefyd fod pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a phrofi amddifadedd difrifol na phobl nad ydynt yn anabl. Mae ein rhaglen o gynlluniau yn cynnwys datblygiadau tai gyda chefnogaeth i oedolion a phlant gydag anghenion dwys yn ogystal â phecynnau cefnogaeth ariannol i wella cyflwr tai a gwneud addasiadau er mwyn galluogi unigolion i barhau i fyw yn eu tai. Yn ogystal â chynyddu'r nifer ac ystod o dai sydd ar gael i bobl Gwynedd, byddwn yn sicrhau fod yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhyw** | Positif | Bydd y gwaith i wella ein dealltwriaeth o'r angen yn caniatáu i ni gomisiynu a datblygu tai i gwrdd â'r anghenion gwahanol, gan gynnwys rhai heriau sy'n effeithio rhai nodweddion gwarchodedig yn fwy na'i gilydd.<br><br>Gwyddom er enghraifft fod canran uchel o'r restr aros am dai cymdeithasol yn ddynion sengl o dan 35 oed. Mae pwyslais uwch ar ddatblygu unedau maint llai er mwyn cyfarch yr angen yma. Yn yr un modd mae diwygiadau lles yn debygol o gael fwy o effaith ar rieni sengl sydd yn ei dro yn debygol o gynyddu'r galw am dai cymdeithasol i'r carfan yno; gwyddom fod merched er enghraifft yn fwy tebygol fod yn deulu un rhiant. |
| **Oedran** | Positif | Dengys yr asesiad marchnad dai lleol fod prinder tai fforddiadwy i brynwyr ac yn benodol prynwyr tro cyntaf. Felly bydd ein cynlluniau i gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy o fewn y Sir ,yn ogystal pecynnau grantiau ac eithriadau treth arfaethedig yn cael effaith bositif.<br><br>Gwyddom hefyd fod y boblogaeth dros 80 yn cynyddu gyda nifer o dai hyn yn anaddas i alluogi nhw fyw'n annibynnol yn eu cartrefi. Bwriedir cefnogi drwy ein cynlluniau i gynyddu'r nifer o Dai Gofal Ychwanegol a modelau cefnogi megis wardeiniaid symudol, yn ogystal â grantiau i wella cyflwr tai. Yn yr un modd, bydd cynyddu'r ystod o dai fforddiadwy a cymdeithasol, sydd wedi'u dylunio i gwrdd ag anghenion, yn gallu bod o gymorth hefyd. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | Nid ydym wedi adnabod effaith ond gall y gwaith pellach i adnabod y gwir angen am dai o fewn y Sir olygu fod angen ail-ymweld |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith? | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|

<table>
<tr><td>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</td><td>Ydi</td><td>Drwy gyfuniad o becynnau cefnogaeth a chynlluniau i ddarparu llety addas mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn ceisio cael gwared â chamwahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy leihau'r rhwystrau (fel yr amlinellir yn rhan 2.3) sy'n atal pobl Gwynedd rhag canfod a byw mewn llety sy'n cwrdd â'u hanghenion.</td></tr>
<tr><td>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</td><td>Ydi</td><td rowspan="3">Bydd y prosiect o sefydlu'r gwir angen o fewn ein cymunedau yn hysbysu'r cynlluniau yma ymhellach ac yn edrych i feithrin perthnasau da wrth ymgynghori a phobl Gwynedd ac ystyried yr effeithiau ar bob nodwedd gwarchodedig.<br><br>O safbwynt ein dyletswydd economaidd gymdeithasol, gwyddom fod 63% o bobl Gwynedd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mae'r cynllun yn edrych i sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy yng Ngwynedd drwy gynlluniau adeiladu ac atgyweirio tai. Bydd cynlluniau yn cael eu gwerthuso ar sail beth sy'n bris fforddiadwy o fewn y gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd. Bydd ein cynlluniau hefyd yn anelu i sicrhau fod tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd, fydd hefyd yn cynnig manteision effeithlonrwydd ynni i breswylwyr.</td></tr>
<tr><td>Meithrin perthnasau da</td><td>Ydi</td></tr>
<tr><td>Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol</td><td>Ydi</td></tr>
</table>

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Ydi. Mae'r cynllun yn seiliedig ar hyn mae ein partneriaid yn adnabod fel rhwystrau i drigolion, ac felly rhai o'r nodweddion cydraddoldeb |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith negyddol ond byddwn yn monitro wrth i gynlluniau aeddfedu a cael eu mireinio. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

### 4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Mae natur rhai o'r cynlluniau yn golygu nad ydym yn gwybod beth fydd yr union ddeilliannau eto, er enghraifft, mae gwaith parhaus angen i'w wneud er mwyn adnabod beth yw'r gwir angen o fewn gwahanol ardaloedd o'r Sir. Rhan annatod o'r gwaith yno fydd ymgynghori, gyda sylw dyledus i'r nodweddion cydraddoldeb wrth gwrs. |

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y gwasanaeth yn barhaus dros gyfnod y Cynllun trwy baratoi asesiadau yn ôl yr angen wth i gynlluniau gael eu mireinio ymhellach